

Busnes Agored y Cyngor – cofnodion 1 i 11 yn gynwysedig.

1. Presenoldeb, Ymddiheuriadau a Chyflwyniadau

Yn bresennol: John Graystone (yn y Gadair), Sonia Reynolds (Is-gadeirydd), Toni Schiavone (Is-gadeirydd), David Elis-Williams, Cathy Clark, Stephen Nicholls, Caroline Davies, Jenni Jones-Annetts, Dafydd Rhys, Chris Franks (hyd at gofnod 7 yn unig). Roedd gan y cyfarfod gworwm.

Yn mynychu: Kathryn Robson (Prif Weithredwr), Mark Baines (Pennaeth Cwricwlwm ac Adnoddau – hyd at gofnod 8 yn unig), Cath Hicks (Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr ac Adnoddau Dynol – hyd at gofnod 8 yn unig), Stephen Thomas (Ysgrifennydd y Cwmni / Clerc); Steffan Wiliam (cyfieithydd ar y pryd).

Ymddiheuriadau: Julie Cook, Gayle Hudson, Iwan Hywel, Gerry Jenson, June Jeremy, Guy Wallace Smith, Nick Taylor, Heather Willbourn.

Rhodddwyd cyflwyniadau byr o gwmpas y bwrdd, gan mai dyma'r tro cyntaf i Jenni Jones-Annetts a Stephen Nicholls, fel dysgwyr-lywodraethwyr a etholwyd yn ddiweddar, fynychu cyfarfod y Cyngor.

2. Cofnodion y Busnes Agored yng nghyfarfod y Cyngor ar 13 Gorffennaf 2018 a materion yn codi

Cafodd cofnodion Busnes Agored trafodion y cyfarfod ar 13 Gorffennaf 2018 ym Mhlas Tan y Bwlch, Maentwrog eu cymeradwyo fel cofnodion cywir. Nid oedd unrhyw faterion yn codi ohonynt nad oeddent ar yr agenda.

3. Adroddiad y Prif Weithredwr

I ddechrau, rhodddwyd sylw i'r ffigurau dysgu ac addysgu ar gyfer 2017-18 a'r diweddariadau rhanbarthol ynghylch materion y cwricwlwm a'r ddarpariaeth. Er oedd yr arwydd o'r gyfradd lwyddiant ar gyfer ein dysgwyr, sef 91%, yn uwch na'r flwyddyn gynt, roedd hi'n bosibl y gallai'r cymharydd cenedlaethol ar gyfer y flwyddyn godi hefyd: roedd hwnnw'n cynnwys pob darparwr dysgu oedolion yn y gymuned, gan gynnwys colegau. Roedd y cwmp o 1,500 yn nifer ein dysgwyr dros y flwyddyn flaenorol – a fu ei hun yn gwmp o gymharu â chyfanswm 2015-16 – oherwydd bod llai o grantiau allanol wedi'u cyflawni yn ystod y flwyddyn o gymharu â gwaith wedi'i ariannu dan gontract yn y blynyddoedd blaenorol (e.e. prosiect Serco): yr oedd rhywfaint o'r rheiny'n gyrsiau 1 dydd yn unig ac, felly, yn rhoi ffigur uwch a braidd yn gamarweiniol. Roedd modd datgan bod nifer dysgwyr 2017-18, sef 13,566 ohonynt, i bob diben yn ffigur craidd ar gyfer y sefydliad fel y'i cyfansoddir ar hyn o bryd. **Gofynnwyd bod nifer dysgwyr/cyfraddau cyrhaeddiad pob un o'r tri rhanbarth gweithredol yn cael eu cofnodi mewn fersiynau o'r Adroddiad yn y dyfodol, ynghyd â disgrifiad gan bob rhanbarth o'r ffordd yr oedd blaenoriaethau/Nodau Strategol newydd y sefydliad yn cael eu rhoi ar waith yno.** Soniodd Caroline Davies am y ffaith bod y contract yn rhanbarth y De-ddwyrain â Rubicon Dance wedi'i golli, gan fod ei ddarpariaeth wedi symud i Goleg Caerdydd a'r Fro ar y sail bod gallu'r Coleg i gynnig dilyniant i'w fyfyrwyr yn well. Roedd hyn yn cynrychioli colli tua 10,000 awr o ddysgu i ni. O ystyried ei bod hi'n naturiol fel darparwr trydydd sector y byddai rhai partneriaethau'n esblygu hyd nes dod i ddiwedd naturiol, **roedd aelodau o'r farn ei bod hi'n well cynnwys newyddion heriol, yn ogystal â newyddion calonogol, yn yr Adroddiad bob tro.**

Yn gysylltiedig â hynny, adroddwyd wedyn bod y niferoedd a recriwtiwyd i'r ddau gwrs a gynhaliwyd ym Mhlas Tan y Bwlch yn ystod ail hanner 2017-18 (Mynediad i AU: Y Dyniaethau, a Gofal Iechyd) ar gyfer y flwyddyn academaidd oedd ar fin dechrau wedi bod yn isel. Er bod y dyddiad cau ar gyfer cofrestru wedi'i ymestyn, efallai na fyddai'r naill gwrs na'r llall yn hyfyw o ystyried y nifer isel o gofrestrïadau. Roedd yn bosibl mai lleoliad y cyrsiau, neu gystadleuaeth â cholegau, oedd sail y broblem, a gallai hyn olygu ailddosbarthu tiwtoriaid neu hyd yn oed eu diswyddo. Yn benodol, mynegodd dau aelod o'r Cyngor bryder am y posibilrwydd hwn, o ystyried bod ein darpariaeth yn ardal Llŷn a Meirionydd - yn wir, yn ardaloedd gwledig Gwynedd a Chonwy yn llwyr, i'r de o'r A55 - eisoes wedi gostwng yn sylweddol yn ôl data diweddaraf y proffil daearyddol, a hefyd oherwydd ei sensitifrwydd arbennig/natur strategol fel cwrs a ddarparwyd gan Goleg Harlech gynt. Cafwyd trafodaeth fer ar opsiynau ar gyfer parhau â'r cwrs - cwrs trwy fideo, y posibilrwydd o roi cymhorthdal iddo ag arian a ddaw o gyrsiau eraill, ei newid i gwrs Lefel 2 a chynnig y cwrs yn y dyfodol trwy gyfrwng y Gymraeg. Honnwyd bod hyn (yn yr un modd ag enghraifft Rubicon Dance) yn dangos nad oeddem yn ddarparwyr addysg Lefel 3 naturiol mwyach; hefyd, oherwydd bod angen llawer o adnoddau ar y cyrsiau Mynediad i AU, oedd yn defnyddio 1.5 tiwtor cyfwerth ag amser llawn gennym, roedd economeg cynnal y cyrsiau mewn blwyddyn benodol yn wahanol i'n cyrsiau cymunedol mwyafrifyddol. Datganwyd mai'r gwirionedd oedd, hyd yn oed pe bai'n bosibl rhoi cymhorthdal o gyrsiau eraill, byddai hyn yn ymarferol dim ond pe bai nifer y cofrestrïadau'n cyrraedd ffigur llawer agosach at drothwy elw ariannol nag yr oeddent yn ei gyrraedd ar hyn o bryd.

O ran trosglwyddo gwaith Addysg Sylfaenol Oedolion Coleg y Cymoedd, a oedd yn cynnwys ymgymryd â chyfrifoldeb am ei ddysgwyr a 6 aelod staff (rhai'n staff rhan-amser, rhai'n staff amser llawn), byddai trefniadau TUPE yn berthnasol i'r tiwtoriaid hynny, yr oedd pob un ohonynt yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon ond â thelerau ac amodau cyflogaeth mwy ffafriol na staff Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales yn eu contractau. Cydnabuwyd bod hyn yn golygu bod rhai risgiau'n cael eu cymhathu.

Yna, rhoddwyd sylw i ddiwrnodau tiwtoriaid a'u cyfraniad at ddatblygiad proffesiynol parhaus. Er bod contractau cyflogaeth yn datgan ei bod hi'n orfodol i diwtoriaid eu mynychu, nid oedd y tiwtoriaid a oedd yn absennol o ddiwyddiadau o'r fath wedi'u holrhain yn systematig o gwbl. Roedd y rhaglen arweinyddiaeth a rheolaeth ar gyfer pob aelod o'r Tîm Rheoli Gweithredol wedi'i hariannu'n allanol i raddau helaeth. O ran prosiect partneriaeth y Brifysgol Agored, byddai ein hincwm ohono yn £60,000. Cadarnhawyd bod y Polisi Diogelu, a ddiweddarwyd yn ddiweddar, yn cynnwys adran ar ddiogelwch plant, bod proffil y sefydliad o ran addysgu Cymraeg a dwyieithog yn wan o hyd, a bod cydweithredu â Chwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru yn parhau, ac y byddai cyfarfod ar y cyd yn cael ei gynnal ar y penwythnos ganlynol.

Yna, trodd y ffocws at ddwy ddogfen allweddol ar yr agenda i'w cymeradwyo.

- a) *Cynllun Strategol Drafft ar gyfer 2018-19 i 2020-21*: nod y ddogfen hon oedd crynhoi'r themâu allweddol a oedd wedi codi yn y Diwrnod Cynllunio Strategol ar 13 Gorffennaf 2018, gan eu symleiddio'n bedwar nod, bob un ohonynt â phedwar is-bennawd targedig yn adlewyrchu'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt ar y diwrnod. Roedd y Cadeirydd o'r farn y dylid amlygu dysgu democrataidd yn fwy yn y rhagair. Deallodd Dafydd Rhys y rheswm dros ddefnyddio'r gair 'coleg' yn y ddogfen a derbyniodd fod hwn wedi bod yn rhan o deitl rhai sefydliadau blaenorol; fodd bynnag, roedd o'r farn y dylai'r ffaith ein bod, i bob diben, yn gorff cymunedol ac yn fudiad gael lle mwy blaenllaw yn y rhagair. Cytunodd David Elis-Williams fod y cynnwys yn adlewyrchu casgliadau Plas Tan y Bwlch ond roedd yn siomedig â fersiwn Cymraeg y drafft a'r defnydd anghyson ar dermau/iaith ynddo, gan ddangos bod prawf ddarllen effeithiol yr un mor bwysig â'r cyfieithu ei hun. **Cymeradwydd y Cyngor fersiwn drafft terfynol o'r Cynllun Strategol, yn ymgorffori'r sylwadau hyn, a byddai'n cael ei ddosbarthu i swyddogion y Cyngor dros y 48 awr i**

ddilyn er mwyn cael ffurf orffenedig, gymeradwy, yn barod i'w chyflwyno ochr yn ochr â'r dogfennau oedd yn cael eu paratoi ar gyfer ymgynghoriad Llywodraeth Cymru;

- b) *Ymateb drafft i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Ddysgu Oedolion yng Nghymru*: byddai hwn yn flaenoriaeth ar gyfer gweithredu a dilyn i fyny dros yr wythnosau i ddod. Roedd yr atebion cynhwysfawr i'r 17 cwestiwn a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad wedi'u dosbarthu, yn yr un modd â'r ddogfen 'Model Darparu Coleg Cymunedol Cenedlaethol'. Llywiwyd y rhain trwy ymgynghori â Jeff Greenidge er mwyn helpu i'w paratoi ac fe'u trafodwyd y bore hwnnw yng nghyfarfod yr Uwch Dîm Rheoli, y bu swyddogion y Cyngor yn bresennol ynddo. Y farn yn y cyfarfod hwnnw oedd bod angen i ni fod yn fwy beiddgar a chadarnhaol wrth wthio'n hunain ymlaen ynddynt: felly, cynigiwyd y dylai fod crynodeb yn cyd-fynd â chyflwyno'r Model ac y dylai geiriad y fersiwn gerbron y Cyngor (a oedd yn wythnos oed erbyn hyn) esblygu ymhellach i rywbeth llai di-liw, gan gynnwys dwyn teitl newydd, sef 'Model ar gyfer Llwyddiant'. Roedd David Elis-Williams o'r farn ei bod yn bwysig i ni ddatgan y ffaith ein bod, fel corff annibynnol, yn bodloni rheolau caffael Llywodraeth Cymru heb yr angen am broses dendro neu geisio eithriad. Roedd hyn yn golygu, pe byddem yn llwyddiannus, na fyddai fformiwlâ a osodwyd ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru yn gosod cyfyngiadau a chlustnodi arnom, ond dylem allu barnu a chlustnodi blaenoriaethau gwario ein hunain er mwyn dosbarthu arian yn gyfiawn a theg rhwng ardaloedd ac awdurdodau unedol. Cyfeiriodd Dafydd Rhys at gwestiwn 16 a theimlad y mudiad Cydweithredol fod posibiladau yma i fod yn fwy cadarnhaol a mireinio'r ateb gydag ychydig o ymadroddion ychwanegol. **Cafodd yr holl newidiadau fel y'u hamlinellir uchod eu cymeradwyo gan y Cyngor ar gyfer y dyddiad cyflwyno, sef 11 Medi.**

Roedd ymgyrch eiriolaeth gyfochrog yn cael ei chynnal drwy e-bost hefyd, fyddai ar agor tan y Nadolig, oherwydd yr angen am gymysgedd o sylwadau cefnogol; roedd tua 1,500 o ohebiadau wedi deillio o hyn eisoes - tua hanner y nifer ar gyfer ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol yn gynt yn ystod yr haf. Gyda chais bod holl aelodau'r Cyngor yn ymateb yn unigol, daeth cais iddynt ddsbarthu'r wybodaeth ar Twitter hefyd i hwyluso lledaenu'r neges ymhellach fyth. Ychwanegodd y Cadeirydd y byddai cyfres o gyfarfodydd ag Aelodau Cynulliad a chyrrff cenedlaethol fel rhan o'r ymgyrch yn ystod yr hydref: **cafodd y dull cyffredinol hwn, yn cynnwys aelodau, cefnogwyr a'r cyfarfodydd penodol a gynhelid at ddibenion eirioli, ei gymeradwyo gan y Cyngor yn ei dro.**

4. Diweddariad ar safle Coleg Harlech

Rhoddodd David Elis-Williams esboniad hanesyddol byr ynghylch dirywiad adeilad y theatr, a'r nod o derfynu cytundeb y brydles â Theatr Ardudwy yn gynnar ar sail trafodaethau dwyffordd, yn hytrach nag ar sail ymrwymadau hanesyddol o'r gorffennol. Y canlyniad, yn sgil cytuno ar yr hyn a ffafriwyd yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Gorffennaf, oedd cyflawni swm is na'r swm a gynigiwyd yn flaenorol, gyda'r ddwy ochr yn cytuno arno. Roedd y dogfennau cyfreithiol (Cytundeb Setlo a Gweithred Ildio) wedi'u paratoi ac, yn awr, roedd angen cytundeb y Cyngor ar gyfer y swm diwygiedig er mwyn eu llofnodi. **Cymeradwywyd yr argymhelliad, sef cymeradwyo terfynu'r brydles â Theatr Ardudwy yn gynnar am y swm o £48,633, gyda'r nod o gwblhau'r camau cyfreithiol o fewn yr wythnosau nesaf.**

Symudwyd ymlaen at waredu'r safle a chytunodd Grŵp Llywio Harlech â chynigion Rowland Jones (fel y'u hamlinellir yn ei ddogfen oedd wedi'i hatodi), sef rhannu'r eiddo yn eitemau gwahanol - rhai i'w gwerthu, rhai i'w trosglwyddo fel ased cymunedol a rhai i'w cadw. Cafwyd trafodaeth ar ddal 'llain bridwerth' yn ôl, neu ychwanegu cymal cyfreithiol perthnasol at y cytundeb ar gyfer safle'r prif gampws, a'r goblygiadau posibl mewn trafodaethau â'r Comisiwn Elusennau am yr angen am ei werthu am y pris uchaf. Trafodwyd trosglwyddo Pen y Graig i Gyngor Cymuned Harlech (oedd ar brydles i'r cyngor ar hyn o

bryd), yn ogystal â chadw llwyfandir y graig i'r dwyrain o safle'r campws, yn dilyn esboniad ynghylch pam nad oedd statws datblygu wedi'i gymeradwyo ar ei gyfer eto fel rhan o Gynllun Datblygu Lleol diwygiedig Cyngor Gwynedd. Gallai'r garej/gweithdy ar y ffordd is i'r traeth gael ei werthu mewn arwerthiant - allai fod o ddiddordeb i'r defnyddiwr/meddiannydd presennol. Ardal Caeau Astor i'r gogledd o'r dref, oedd heb unrhyw gostau i ni ac yn dwyn incwm blynyddol i ni o oddeutu £3,000 ar gyfer defnyddio'r tir, oedd yr eitem/parsel diwethaf i'w drafod.

Cytunodd y Cyngor ar yr argymhellion canlynol gan Grŵp Llywio Harlech ynghylch y tir a'r eiddo oedd yn llunio ystâd Harlech:

- i) **Bod ardal y prif gampws yn cael ei baratoi i'w werthu fel un eitem, gyda 'llain bridwerth' yn cael ei dal yn ôl o'r arwerthiant, neu fod cymal yn cael ei ychwanegu at ddogfennau cyfreithiol gyda'r un bwriad, sef bod Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales yn cadw cyfran fechan o'r tir;**
- ii) **Bod perchenogaeth ar Ben y Graig yn cael ei throsglwyddo'n llawn i Gyngor Cymuned Harlech, am gost o swm enwol oedd yn gyfwerth â'n costau cyfreithiol ar gyfer gwerthu'r llain honno o dir;**
- iii) **Ein bod yn cadw llwyfandir y graig yn ein meddiant, gan fod y costau cynnal a chadw yn fach iawn a gallai fod potensial i'w ddatblygu yn y dyfodol;**
- iv) **Bod y garej/gweithdy'n cael ei werthu drwy arwerthiant;**
- v) **Bod tir Caeau Astor (tua 40 erw yn gyfan gwbl) yn cael ei gadw'n llawn – sef y rhan oedd yn debygol o gael caniatâd cynllunio i'w ddatblygu a'r rhan oedd y tu allan i'r ardal ddatblygu ar hyn o bryd.**

Ar sail y penderfyniadau uchod, byddai Cath Hicks yn bwrw ymlaen ag awdurdodi gwerthwyr eiddo Tom Parry i lunio dogfennau gwerthu a manylion eraill, ar y cyd â Rowland Jones.

Roedd David Ashman (Uwch Swyddog Iechyd, Diogelwch, yr Amgylchedd ac Ystadau) yn cynnal trafodaethau â chynrychiolwyr lleol ynghylch trosglwyddo deunyddiau a dodrefn a allai fod yn ddefnyddiol i sefydliadau yn Harlech. Torrwyd i mewn i'r safle ddwywaith eto, ond ni hawliwyd am hynny ar ein polisi yswiriant gan nad oedd y costau atgyweirio/amddiffyn a ymrwymwyd iddynt hyd yn hyn yn cyfiawnhau hynny. **Ailgadarnhaodd y Cyngor ei ymrwymiad parhaus i wariant rhesymol i gadw'r safle'n ddiogel.** O ran y llyfrgell, roedd rhan gyntaf y cytundeb â Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi dechrau cael ei rhoi ar waith, yn ymwneud â dosbarthu llyfrau i'r gymuned leol. Byddai fformiwla ariannol yn cael ei gynnig i'r gwirfoddolwyr lleol a oedd yn rhedeg y llyfrgell yn y dref (nad oedd o dan nawdd Cyngor Gwynedd Council mwyach) am eu cymorth i werthu'r llyfrau: cytunwyd ar yr egwyddor o gael fformiwla ariannol, ac y byddai Grŵp Llywio Harlech yn cytuno ar y manylion terfynol ar wahân. Yn dibynnu ar yr hyn fyddai'n digwydd, gallai fod yn bosibl ail-fuddsoddi arian a ddaw i ni o werthu'r llyfrau mewn gwaith pellach ar y cyd â'r Llyfrgell Genedlaethol, er enghraifft.

6. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf 2018 a'r gofrestr Risg ar gyfer Awst 2018

Fel Cadeirydd y Pwyllgor, nododd Chris Franks y materion cymharol ddibwys a godwyd yn adroddiad blynyddol Gwanwyn 2018 yr archwilwyr mewnol. O ran y Gofrestr Risg, holwyd p'un a oedd y ffaith nad oedd unrhyw risgiau mor ddifrifol fel eu bod mewn lliw coch ar ôl cymryd camau lliniaru yn eu cylch yn rhy hunanbodlon; p'un a ddylid rhoi risg lliw uwch i 2.1.2 (darpariaeth Gymraeg), o ystyried pa mor aml roedd yn cael ei thrafod mewn ffurfiau amrywiol; a ph'un a allai risgiau 4.1.1 a 4.1.2 (rheoli TGCh a chynllunio) gael eu cyfuno gan fod eu cynnwys yn debyg iawn, ac ar yr un pryd, p'un a ddylai risgiau TGCh yn gyffredinol gael eu graddio'n uwch yn dilyn cyflwyno adroddiad diweddar JISC ar seilwaith TG a

ystyriwyd gan y Pwyllgor Adnoddau. Roedd hi'n ymddangos hefyd fod y ffaith bod 'Dim Newid' i'r un o'r 18 risg yn awgrymu nad oedd difrifoldeb y sgorau yn y Gofrestr yn cael eu hadolygu'n ddigon aml, efallai oherwydd bod y Gofrestr gerbron Pwyllgorau a'r Cyngor mor rheolaidd.

7. Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Profiad y Dysgwyr a gynhaliwyd ar 20 Gorffennaf 2018

Nodwyd nad oedd cworwm yng nghyfarfod y Pwyllgor hwn. O ran cofnod 2, cyfeiriodd Cathy Clark at y ffaith bod cyflwyno cyrsiau am ddim i bobl oedd yn derbyn y Credyd Cynhwysol wedi cael sgil-ffaith ar aelodau cangen Oakdale a'r Coed-duon, ble'r oedd cyfraniadau ffioedd rhai o'i haelodau wedi codi 17%. Cydnabuwyd bod cymhwysu polisi i Gymru gyfan ar ffioedd yn golygu goblygiadau gwahanol mewn ardaloedd gwahanol, a byddai gweithredu hyn yn cael ei adolygu yn ystod y flwyddyn; hefyd, roedd yr ateb i Gwestiwn 14 ymgynghoriad Llywodraeth Cymru am ymrwymadau i ardaloedd o ddifreintedd lluosog yn adleisio'r mater hwn.

Ystyriwyd yr Adroddiad Hunanasesu ar gyfer 2016-17. Gofynnwyd p'un a oedd ei naws yn rhy gadarnhaol, heb fod yn ddigon hunanfyfyriol a beirniadol. Er bod Adolygiad Sefydliadol Llywodraeth Cymru o Addysg Bellach yn gynt yn ystod 2018 wedi nodi bod angen mwy o hunanfeirniadaeth yn y sector, nid oedd y sefydliad hwn yn benodol wedi bod yn rhan o'r cyhuddiad hwnnw. O ystyried bod oedi i'r Adroddiad hwn eisoes a'i fod yn cyfeirio at gyfnod dros 12 mis yn gynt, ac yn sgil adborth gan Lywodraeth Cymru, **rhoddwyd cymeradwyaeth i'r adroddiad fynd yn ei flaen fel yr oedd**; dylai'r pwyntiau a godwyd yma (ac yng nghyfarfod yr uwch dîm rheoli'r bore hwnnw) gael eu cynnwys yn fersiwn 2017-18 yr Adroddiad, a fyddai'n destun craffu yn gynt o lawer yn ystod y cylch blynyddol oedd ar ddod.

Ar y Proffil Dysgwyr a Daearyddol 1 dudalen ar gyfer 2017-18, cafodd y pwynt a nodwyd yn gynt yng nghofnod 3 o dan y drafodaeth ynghylch Plas Tan y Bwlch ei ailbwysleisio - sef ei bod yn ymddangos bod gostyngiad sylweddol yn nifer y cyrsiau a gynhaliwyd mewn ardaloedd gwledig mewn amryw ran o Gymru.

8. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Adnoddau a gynhaliwyd ar 24 Gorffennaf 2018

Tynnodd David Elis-Williams sylw'r Cyngor yn fras i'r prif bwyntiau ar gyllid (rhagolygon y gyllideb tair blynedd), TG (adolygiad seilwaith) ac adnoddau dynol (arfarniadau swyddi a'r panel apeliadau) a gafodd eu trafod yn y cyfarfod.

9. Materion Llywodraethu – manyleb ar gyfer Llywydd, swydd-ddisgrifiad ar gyfer y Cadeirydd a chyfnod aelodau'r Cyngor yn eu rôl

Amlinellodd Ysgrifennydd y Cwmni'r pwyntiau allweddol ynghylch y materion hyn. O ran rôl y Llywydd, holodd Cathy Clark p'un a oedd angen penodiad i swydd arall, gan deimlo bod rhywfaint o ddyblygu rhwng y rôl arfaethedig a rôl y Cadeirydd ac, i raddau, y Prif Weithredwr, gan ychwanegu at gostau'r sefydliad. Mewn sylwadau ysgrifenedig, gofynnodd Gayle Hudson hefyd pa fuddion a ddaw o lenwi rôl o'r fath. Soniwyd am rôl yr Athro Teresa Rees fel Llywydd WEA De Cymru yn gymhariaeth; ei harbenigedd yn y maes oedd y prif ased yn hynny o beth: roedd yn bosibl mai penodi er mwyn penodi oedd y ffordd anghywir o ystyried y mater - os oedd rhywun yn gweddu i'r rôl yn berffaith, yna byddai'n iawn eu penodi, ond nid oedd angen mynd ati i chwilio am rywun ar gyfer y rôl. **Er bod y cylch gwaith a'r swydd-ddisgrifiad ar gyfer Llywydd wedi'u derbyn yn ddilys at ddibenion cyfeirio, daethpwyd i'r casgliad na ddylid rhoi proses ar waith i recriwtio unigolyn o'r fath, ond pe bai rhywun yn dod i'r amlwg a fyddai'n addas, yna gallai'r rôl gael ei llenwi yng ngoleuni cryfderau'r unigolyn hwnnw.**

Ystyriwyd bod y diweddariad i swydd-ddisgrifiad y Cadeirydd yn ddefnyddiol o ran ailgadarnhau cyfrifoldebau. Cafwyd rhywfaint o drafodaeth wrth fynd drwy'r pwyntiau yn y swydd-ddisgrifiad, gyda deiliad presennol y swydd yn hunanasesu pa mor dda roedd rhai o'r dyletswyddau a amlinellwyd yn cael eu cyflawni. O ran hyd cyfnod mewn swydd, pwysleisiwyd yr amserlen ddechrau 2019 ar gyfer y rheiny oedd yn ildio'r rôl ar 31 Mawrth 2019. Cafwyd trafodaeth ynghylch presenoldeb mewn cyfarfodydd Cyngor a Phwyllgor, a nodwyd **yr angen i gysylltu ag aelodau penodol ynghylch eu habsenoldebau olynol.**

10. Adborth ar gyfarfod y Cyngor

Fel yr aelod mwyaf newydd, mynegodd Stephen Nicholls ei farn bod amcanion y cyfarfod wedi'u bodloni, bod lefel y deunydd a oedd yn galluogi gwaith darllen cefndir manwl yn dda, ond efallai bod ychydig gormod o acronymau yn cael eu defnyddio yn y deunydd na'r hyn oedd yn ddymunol.

11. Cadarnhau dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor a chyfarfodydd eraill sydd ar ddod

- 2018 - Dydd Iau 22 Tachwedd: Wrecsam
- 2019 - Dydd Mawrth 29 Ionawr: Caerdydd
- Dydd Llun 4 Mawrth: Y Drenewydd
- Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol – Dydd Sadwrn 23 Mawrth: lleoliad yng ngogledd Cymru
- Dydd Gwener 17 Mai: Glyn Ebwy
- Dydd Iau 18 Gorffennaf: Cyffordd Llandudno

PWYNTIAU GWEITHREDU

Cyfeirnod	Enw'r cofnod	Gweithred y cytunwyd arni	Gweithredu gan bwy	Gweithredu erbyn pryd
Cofnod 3	Adroddiad y Prif Weithredwr	Bod nifer dysgwyr/cyfraddau cyrhaeddiad pob un o'r tri rhanbarth gweithredol yn cael eu cofnodi mewn fersiynau o'r Adroddiad yn y dyfodol, ynghyd â disgrifiad gan bob rhanbarth o'r ffordd yr oedd blaenoriaethau/ Nodau Strategol newydd y sefydliad yn cael eu rhoi ar waith yno. Dylai newyddion heriol, yn ogystal â newyddion calonogol, gael ei gynnwys yn yr Adroddiad bob tro.	KR	Tachwedd 2018
Cofnod 3a)	Cynllun Strategol Drafft ar gyfer 2018-19 i 2020-21	Cymeradwyodd y Cyngor fersiwn drafft terfynol o'r Cynllun Strategol, yn ymgorffori'r sylwadau a wnaed gan aelodau'r Cyngor, a byddai'n cael ei ddosbarthu i swyddogion y Cyngor dros y 48 awr i ddilyn er	KR / JG / SR / TS / Jonathan Goddard	Medi 2018

		mwyn cael ffurf orffenedig, gymeradwy, yn barod.		
Cofnod 3b)	Ymateb drafft i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Ddysgu Oedolion yng Nghymru	<p>Cafodd yr holl newidiadau fel y'u hamlinellwyd gan y Cyngor eu cymeradwyo, ar gyfer y dyddiad cyflwyno, sef 11 Medi.</p> <p>Cafodd y dull cyffredinol, yn cynnwys aelodau, cefnogwyr a'r cyfarfodydd penodol a gynhelid at ddibenion eirioli, ei gymeradwyo gan y Cyngor.</p>	<p>KR / Jonathan Goddard</p> <p>KR / JG / DRh / holl aelodau'r Cyngor</p>	<p>Medi 2018</p> <p>Hydref 2018</p>
Cofnod 4	Diweddariad ynghylch safle Coleg Harlech	<p>Cymeradwywyd yr argymhelliad, sef cymeradwyo terfynu'r brydles â Theatr Ardudwy yn gynnar am y swm o £48,633, gyda'r nod o gwblhau'r camau cyfreithiol o fewn yr wythnosau nesaf.</p> <p>Cytunodd y Cyngor ar yr argymhellion canlynol gan Grŵp Llywio Harlech ynghylch y tir a'r eiddo oedd yn llunio ystâd Harlech:</p> <p>i) Bod ardal y prif gampws yn cael ei baratoi i'w werthu fel un eitem, gyda 'llain bridwerth' yn cael ei dal yn ôl o'r arwerthiant, neu fod cymal yn cael ei ychwanegu at ddogfennau cyfreithiol gyda'r un bwriad, sef bod Addysg Oedolion Cymru Adult Learning Wales yn cadw cyfran fechan o'r tir;</p> <p>ii) Bod perchenogaeth ar Ben y Graig yn cael ei throsglwyddo'n llawn i Gyngor Cymuned Harlech, am gost o swm enwol oedd yn gyfwerth â'n costau cyfreithiol ar gyfer gwerthu'r llain honno o dir;</p> <p>iii) Ein bod yn cadw llwyfandir y graig yn ein meddiant, gan fod y costau cynnal a chadw yn fach iawn a gallai fod potensial i'w ddatblygu yn y dyfodol;</p> <p>iv) Bod y garej/gweithdy'n cael ei werthu drwy arwerthiant;</p> <p>v) Bod tir Caeau Astor (tua 40 erw yn gyfan gwbl) yn cael ei gadw'n llawn – sef y rhan oedd yn debygol o gael caniatâd cynllunio</p>	<p>Yn amrywiol ynghylch Harlech: KR / CH / holl aelodau Grŵp Llywio Harlech</p>	<p>Medi 2018</p> <p>Medi 2018</p>

		<p>i'w ddatblygu a'r rhan oedd y tu allan i'r ardal ddatblygu ar hyn o bryd.</p> <p>Byddai Cath Hicks yn bwrw ymlaen ag awdurdodi gwerthwyr eiddo Tom Parry i lunio dogfennau gwerthu a manylion eraill, ar y cyd â Rowland Jones.</p> <p>Ailgadarnhaodd y Cyngor ei ymrwymiad parhaus i wariant rhesymol i gadw'r safle'n ddiogel.</p>		<p>Medi 2018</p> <p>Medi 2018</p>
Cofnod 7	Adroddiad Hunanasesu ar gyfer 2016-17	Rhoddwyd cymeradwyaeth i'r adroddiad fynd yn ei flaen fel yr oedd wedi'i gyflwyno i'r Cyngor.	KR / MB	Hydref 2018
Cofnod 9	Materion llywodraethu	Nodwyd yr angen i gysylltu ag aelodau penodol ynghylch eu habsenoldebau olynol.	JG / ST	Hydref 2018